Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg:
# Strategaeth y Chweched Senedd

## Ein gweledigaeth

Yw sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a chadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc.

## Ein hamcanion

### Rhoi hawliau plant wrth galon ein gwaith
Gweithio'n galed i archwilio a yw Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gorau ac yn defnyddio'i holl bwerau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu arfer eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

### Blaenoriaethu ffocws ar blant a phobl ifanc
Edrych ar sut y mae polisïau, deddfau a gwariant yn effeithio ar blant a phobl ifanc.

### Gwneud gwaith craffu amserol ac adeiladol
Gweithredu mewn ffordd sy'n ceisio newid pethau er gwell ac ar yr adeg sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf, gan ymateb yn gyflym i benderfyniadau mawr sy'n gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

### Gweithio i wneud gwahaniaeth i fywydau plant bob amser
Ein rôl ni yw gwirio a yw gwaith Llywodraeth Cymru yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru.

### Cydnabod pwysigrwydd canolog iechyd meddwl
Blaenoriaethu llesiant meddyliol plant a phobl ifanc a bod yn glir ynghylch sut y gall eu hiechyd corfforol effeithio ar hyn.

### Defnyddio tystiolaeth
Edrych ar y ffeithiau ym mhopeth a wnawn ac argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud yr un peth.

### Cael ein harwain gan anghenion amrywiol pob plentyn a pherson ifanc
Bydd lleisiau plant a phobl ifanc yn greiddiol i'n gwaith craffu. Byddwn yn defnyddio dulliau newydd ac arloesol i wrando ar y plant a phobl ifanc anoddaf eu cyrraedd.

## Byddwn yn gwneud hyn drwy:

- weithio'n galed gyda'n gilydd fel Pwyllgor;
- gweithio gyda Phwyllgorau eraill y Senedd, Senedd Ieuenctid Cymru a Grwpiau Trawsbleidiol y Senedd;
- rhoi cynnig ar ffyrdd newydd ac arloesol o weithio; ac
- edrych yn rheolaidd ar ein ffyrdd o weithio a sut rydyn ni'n perfformio, gan ofyn am adborth a newid sut rydyn ni'n gweithio yn ôl yr angen.